**DOGFENNAU SY'N MYND GYDA'R BIL**
**Caiff Nodiadau Esboniadol a Memorandwm Esboniadol eu hargraffu ar wahân.**

# Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

[DRAFFT]

## CYNNWYS

1 Darparu addysg awyr agored breswyl
2 Cyllid ar gyfer addysg awyr agored breswyl
3 Pŵer i wneud darpariaeth drosiannol
4 Dod i rym
5 Enw byr

# Bil Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru)

[DRAFFT]

Deddf gan Senedd Cymru i wneud darpariaeth mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl.

**Gan ei fod wedi ei basio gan Senedd Cymru ac wedi derbyn cydsyniad Ei Fawrhydi, deddfir fel a ganlyn:**

**1 Darparu addysg awyr agored breswyl**

(1) Mae Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (dsc 4) wedi ei diwygio yn unol â'r adran hon.

(2) Ar ôl adran 64 mewnosoder—

*"Addysg awyr agored breswyl*

**64A Darparu addysg awyr agored breswyl**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod addysg awyr agored breswyl yn cael ei darparu i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir o leiaf unwaith cyn iddynt beidio â bod yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir.

(2) Mae'r camau hynny yn cynnwys Gweinidogion Cymru yn arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, ac yn benodol—

(a) yn arfer swyddogaethau o dan adran 6 er mwyn gwneud addysg awyr agored breswyl yn gysyniad allweddol o fewn maes dysgu a phrofiad;

(b) yn arfer swyddogaethau o dan adran 71A i ddyroddi canllawiau mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl.

(3) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi cod (y "Cod Addysg Awyr Agored Breswyl") sy'n nodi'r ffordd y mae cwricwlwm i wneud darpariaeth ar gyfer addysg awyr agored breswyl.

(4) Rhaid dyroddi'r Cod Addysg Awyr Agored Breswyl cyntaf o fewn blwyddyn i'r adran hon ddod i rym.

(5) Nid yw cwricwlwm yn cydymffurfio â'r Ddeddf hon oni bai ei fod yn cyd-fynd â'r Cod Addysg Awyr Agored Breswyl.

(6) O ran Gweinidogion Cymru—

(a) rhaid iddynt gadw'r Cod Addysg Awyr Agored Breswyl o dan adolygiad, a

(b) cânt ei ddiwygio.

(7) Am ddarpariaeth bellach ynghylch y Cod Addysg Awyr Agored Breswyl, gweler adran 76."

(3) Ar ôl adran 71 mewnosoder—

**"71A Dyletswydd i ddyroddi canllawiau mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau o dan adran 71 mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl.

(2) Rhaid dyroddi'r canllawiau cyntaf o fewn blwyddyn i'r adran hon ddod i rym.

(3) O ran y canllawiau hynny—

(a) rhaid iddynt ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn cynnwys o leiaf 4 noson a 5 niwrnod yn aros mewn llety preswyl;

(b) cânt ddarparu bod y cyfnod hwn o amser yn olynol;

(c) cânt nodi'r oedran neu'r oedrannau, neu'r flwyddyn ysgol neu'r blynyddoedd ysgol, pan fwriedir darparu addysg awyr agored breswyl;

(d) rhaid iddynt ddarparu nad yw addysg awyr agored breswyl yn orfodol i ddisgyblion ei mynychu;

(e) rhaid iddynt ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn addas ar gyfer oedran, gallu a dawn disgybl, ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol sydd ganddo;

(f) rhaid iddynt ddarparu y caiff addysg awyr agored breswyl ei darparu yn Gymraeg, cyn belled â'i bod ar gael, pan fo ysgol yn gwneud cais am hynny;

(g) cânt ddarparu bod addysg awyr agored breswyl yn hybu dealltwriaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru;

(h) cânt nodi gofynion y mae'n rhaid eu bodloni cyn y caniateir i berson ddarparu addysg awyr agored breswyl;

(i) rhaid iddynt wneud darpariaeth mewn cysylltiad â'r costau y byddai'n rhesymol mynd iddynt mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl;

(j) cânt wneud darpariaeth mewn cysylltiad â chostau staff ysgolion mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl; a

(k) cânt gynnwys unrhyw ddarpariaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol."

(4) Yn adran 76—

(a) yn y pennawd, yn lle "Cod yr Hyn sy'n Bwysig a'r Cod Cynnydd" rhodder "Cod yr Hyn sy'n Bwysig, y Cod Cynnydd a'r Cod Addysg Awyr Agored Breswyl";

(b) yn lle is-adran (1)(b) rhodder—

"(b) y Cod Cynnydd;

(c) y Cod Addysg Awyr Agored Breswyl."

(5) Yn adran 83, yn Nhabl 1, mewnosoder yn y lle priodol yn nhrefn yr wyddor—

| | |
|---|---|
| "Cod Addysg Awyr Agored Breswyl (*"Residential Outdoor Education Code"*) | adran 64A". |

**2 Cyllid ar gyfer addysg awyr agored breswyl**

Ar ôl adran 64A o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (dsc 4) (fel y'i mewnosodir gan adran 1 o'r Ddeddf hon) mewnosoder—

**"64B Cyllid ar gyfer addysg awyr agored breswyl**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru dalu swm i awdurdod lleol sy'n ddigonol i alluogi'r swyddogaethau a roddir gan neu o dan adrannau 64A ac 71A, mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl, i gael eu cyflawni.

(2) Nid yw'r adran hon yn lleihau effaith Pennod 4 o Ran 2 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p. 31) (ariannu ysgolion a gynhelir)."

**3 Pŵer i wneud darpariaeth drosiannol**

(1) Ar ôl adran 74 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (dsc 4) mewnosoder—

**"74A Pŵer i wneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad ag addysg awyr agored breswyl**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth drosiannol mewn cysylltiad â dod ag adrannau 64A, 64B ac 71A i rym.

(2) Caiff rheoliadau a wneir o dan is-adran (1), yn benodol, addasu neu oedi pryd y daw'r adrannau hynny i rym mewn cysylltiad ag oedrannau gwahanol, neu flynyddoedd ysgol gwahanol, ddisgyblion cofrestredig."

(2) Yn adran 75(2)(a) o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, yn lle "neu 48" rhodder ", 48 neu 74A".

**4 Dod i rym**

(1) Daw adrannau 1 a 2 i rym ar ddiwedd y cyfnod o 3 mis sy'n dechrau â'r diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

(2) Daw gweddill yr adrannau i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf hon y Cydsyniad Brenhinol.

**5 Enw byr**

Enw byr y Ddeddf hon yw Deddf Addysg Awyr Agored Breswyl (Cymru) 2024.